OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 41 (Cy.7)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Tir Cynnal (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*10 Ionawr 2006*
Yn dod i rym - -	*13 Ionawr 2006*

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol, ac yntau wedi'i ddynodi (**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd(**2**), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 2(2) uchod a phob pwer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tir Cynnal (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 13 Ionawr 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru'n unig.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall —

ystyr "adran fferm gyfan" ("*whole farm section*") yw'r amodau amgylcheddol a geir yn Rhan I o'r Atodlen ac y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy fel rhan o gynllun Tir Cynnal;

ystyr "yr amod cynefin 5%" ("*the 5% habitat condition*") yw'r amodau a geir yn Rhan 2 o'r Atodlen;

ystyr "Cod Ymarfer Ffermio Da ("*Code of Good Farming Practice*") yw'r darpariaethau a nodir yn adran 9.1 o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2000-2006;

mae "cyflawni" ("*carrying out*"), mewn perthynas â gweithgaredd, yn cynnwys sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni;

ystyr "cynefinoedd bywyd gwyllt" ("*wildlife habitats*") yw'r amodau amgylcheddol a geir yn Rhan 2 o Atodlen 1;

ystyr "cynllun rheoli adnoddau fferm" ("*farm resource management plan*") yw'r gweithgaredd a geir yn Rhan 3 o'r Atodlen;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(**1**) O.S. 2005/2766
(**2**) 1972 p.68

ystyr "cytundeb Tir Cynnal" ("*Tir Cynnal agreement*") yw'r ystyr a roddir iddo gan reoliad 4(2);

ystyr "deiliad cytundeb Tir Cynnal" ("*Tir Cynnal agreement holder*") yw unrhyw berson sydd wedi ymrwymo i gytundeb Tir Cynnal;

ystyr "dibenion penodedig" ("*specified purposes*") yw gwarchod bioamrywiaeth, gwarchod nodweddion tirwedd, diogelu'r amgylchedd hanesyddol a lleihau llygredd;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn ŵyl cyfraith gyffredin yng Nghymru a Lloegr, neu'n Ŵyl y Banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol(**3**);

ystyr "force majeure" yw amgylchiadau annormal ac anrhagweladwy sydd y tu allan i reolaeth y ceisydd ac na fyddai wedi bod modd osgoi eu heffaith petai'r ceisydd yn arfer pob gofal dyladwy;

ystyr "ffurflen indemnio landlord" ("*landlord indemnity form*") yw'r ffurflen a gaiff ei drafftio gan y Cynulliad Cenedlaethol ac y mae Landlord Tenant sy'n dymuno cymryd rhan yng nghynllun Tir Cynnal ond y mae llai na phum mlynedd o'i gytundeb tenantiaeth yn weddill, yn gwneud ymgymeriad i'r Tenant ynddi i gynnal a chadw'r tir o fewn cynllun Tir Cynnal hyd o leiaf ddiwedd pum mlynedd gyntaf unrhyw gytundeb a wnaed gan y Tenant i gymryd rhan yng nghynllun Tir Cynnal;

ystyr "parti arall" ("*other party*") yw person sy'n barti i gytundeb Tir Cynnal gyda'r Cynulliad Cenedlaethol;

ystyr "person cymwys" ("*eligible person*") yw deiliad cytundeb Tir Cynnal sy'n gwneud cais am gymhorthdal o dan y Rheoliadau hyn ac nad yw wedi'i wahardd rhag bod yn gymwys ar gyfer y cymhorthdal hwnnw ar yr adeg pan gaiff cais y person hwnnw ei ystyried;

ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 817/2004(**4**) sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor;

ystyr "Rheoliad y Cyngor" ("*the Council Regulation*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1257/1999(**5**) ar ddulliau cynhyrchu amaethyddol sy'n gymhathus â gofynion gwarchod yr amgylchedd a chynnal a chadw cefn gwlad; ac

ystyr "tir cytundeb" ("*agreement land*") yw tir sy'n destun cytundeb Tir Cynnal.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn —

(a) at reoliad neu Atodlen â Rhif yn gyfeiriad at y rheoliad yn y Rheoliadau hyn sy'n dwyn y Rhif hwnnw neu at yr Atodlen iddynt;

(b) at baragraff â Rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y rheoliad y ceir y cyfeiriad ynddo; ac

(c) at is-baragraff â Rhif neu a ddynodwyd yn gyfeiriad at yr is-baragraff sy'n dwyn y Rhif hwnnw neu a ddynodwyd yn y modd hwnnw yn y paragraff y ceir y cyfeiriad ynddo.

Ceisiadau

3. Gwneir cais gan berson cymwys i ymuno â chynllun Tir Cynnal ar yr adeg honno a'r ffurf honno a bydd y cais yn cynnwys neu amgaeir gydag ef unrhyw wybodaeth y gofynno'r Cynulliad Cenedlaethol amdani a bydd y cais yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a fynno'r Cynulliad Cenedlaethol.

(**3**) 1971 p.80
(**4**) OJ Rhif L74/1, 26.2.04
(**5**) OJ Rhif L343, 23.6.99

Pŵer i ymrwymo i gytundebau

4.—(1) Mewn unrhyw achos pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol o'r farn, mewn perthynas ag unrhyw dir, y byddai'r amodau canlynol o blith y rhai a geir yn Rhannau 1, 2, 3 a 4 o'r Atodlen, a chyflawni gweithgareddau gan unrhyw berson sydd â buddiant yn y tir hwnnw, yn ffafriol i'r dibenion penodedig, caiff y Cynulliad Cenedlaethol, yn ddarostyngedig i baragraffau (4) a (5) isod, ymrwymo i gytundeb Tir Cynnal gyda'r person cymwys hwnnw.

(2) At ddibenion paragraff (1) uchod, ystyr cytundeb Tir Cynnal yw cytundeb sy'n parhau mewn grym am gyfnod o bum mlynedd o leiaf, sy'n darparu bod y deiliad cytundeb i gydymffurfio â'r amodau a geir yn Rhannau 1, 2, 3 a 4 o'r Atodlen mewn perthynas â'r tir cytundeb ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud cymorthdaliadau i'r deiliad cytundeb o ran dilyn yr amodau hynny ar y tir cytundeb.

(3) Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ymrwymo i unrhyw gytundeb Tir Cynnal mewn amgylchiadau y mae Erthygl 42 o Reoliad y Comisiwn 817/2004 (sy'n awdurdodi disodli ymgymeriad neu gytundeb amaeth-amgylcheddol gan ymgymeriad neu gytundeb arall o'r fath) yn gymwys iddynt onid yw wedi'i fodloni bod yr amodau yn yr Erthygl honno'n cael eu cyflawni.

(4) Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ymrwymo i unrhyw gytundeb Tir Cynnal onid oes o leiaf 3 hectar o dir yn ddarostyngedig i'r cytundeb hwnnw.

(5) Bydd cytundeb Tir Cynnal—

(a) yn cynnwys darpariaeth y bydd y parti arall yn cyflawni ar y tir cytundeb yr adran fferm gyfan fel a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen;

(b) yn cynnwys y bydd y parti arall yn cyflawni ar y tir cytundeb weithgareddau er mwyn gwarchod cynefinoedd bywyd gwyllt a bennir yn Rhan 2 o'r Atodlen, i'r graddau y mae'r cynefinoedd yn bodoli ar y tir cytundeb;

(c) yn cynnwys y bydd o leiaf 5% y tir cytundeb yn gynefin bywyd gwyllt. Os nad yw o leiaf 5% y tir cytundeb yn gynefin bywyd gwyllt pan fo cais yn cael ei wneud yna bydd y parti arall yn cytuno i sicrhau y bydd y tir cytundeb yn cydymffurfio â'r amod cynefin 5%;

(ch) yn cynnwys darpariaeth y bydd y parti arall yn cwblhau cynllun rheoli adnoddau fferm fel a fanylir yn Rhan 3 o'r Atodlen;

(d) mewn perthynas â'r gweithgareddau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a), (b), (c) ac (ch), yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol neu'n ei alluogi i roi cymorthdaliadau sydd, ar ddyddiad dod i rym yr offeryn hwn, (ond fe ganiateir newid y cymorthdalaidau yn ôl disgresiwn y Cynulliad Cenedlaethol) ar y cyfraddau y cyfeirir atynt yn Rhan 4 o'r Atodlen.

Amodau talu cymhorthdal

5.—(1) Bydd unrhyw ofyniad mewn cytundeb Tir Cynnal i dalu cymhorthdal i unrhyw berson o dan y Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r amod bod person yn berson cymwys ac i'r amodau canlynol hefyd —

(a) nad yw'r person hwnnw'n mynd yn groes i unrhyw un neu rai o delerau'r cytundeb Tir Cynnal sy'n ei rwymo;

(b) bod y person hwnnw'n cydymffurfio â gofynion rheoliad 7 isod; ac

(c) bod y person hwnnw'n parhau i fod â buddiant yn y tir cytundeb tra pery'r cytundeb Tir Cynnal, onid yw'r person hwnnw'n un o denantiaid y tir cytundeb a bod llai na phum mlynedd o'r denantiaeth yn weddill, a bod y person hwnnw wedi cael llofnod ei Landlord ar y ffurflen indemnio landlord;

(ch) bod y person hwnnw wedi cydymffurfio â darpariaethau'r Cod Arfer Ffermio Da ac yn parhau i gydymffurfio ag ef;

(2) y gellir addasu'r amodau y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy o dan gynllun Tir Cynnal ar unrhyw adeg, gan gynnwys addasiad a osodir o ganlyniad i newidiadau a wneir yn y dyfodol i Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2002-2006 ac unrhyw gynllun sy'n ei olynu.

Taliadau

6. Caniateir talu cymhorthdal o dan unrhyw gytundeb Tir Cynnal yn ystod cyfnod talu blynyddol y penderfynir arno gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ceisiadau

7.—(1) Bydd cais gan ddeiliad cytundeb Tir Cynnal am gymhorthdal o dan y Rheoliadau hyn yn cael ei wneud ar unrhyw adeg ac ar unrhyw ffurf y byddo'n rhesymol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu mynnu ac yn cynnwys yr wybodaeth y byddo'n rhesymol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ofyn amdani.

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ymgorffori'r cais am daliadau Tir Cynnal yn Ffurflen Taliadau'r Cais Sengl.

Terfynau Ariannol

8. Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol o'r farn ar unrhyw adeg, oherwydd cyfanswm nifer y ceisiadau am grant a gymeradwywyd neu a ddaeth i law eisoes, fod yr adnoddau ariannol sydd ar gael ar gyfer talu grant o dan gynllun Tir Cynnal yn ystod unrhyw gyfnod yn annigonol ar gyfer unrhyw daliad yn ystod y cyfnod a fyddai'n deillio o gymeradwyo unrhyw gais pellach, caiff, o ran unrhyw gais a fydd wedi dod i law ar ddyddiad gwneud ei benderfyniad ond nas derbyniwyd eto, neu unrhyw gais a ddelo i law yn ystod y cyfnod perthnasol—

(a) atal ystyriaeth bellach ar unrhyw gais o'r fath nes dod yr amser y byddo'n ei bennu wedyn: neu

(b) gwrthod unrhyw gais pellach o'r fath heb ystyriaeth bellach.

Ceisiadau hwyr

9.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3) isod, os bydd y ceisydd yn cyflwyno cais am daliad Tir Cynnal o ran blwyddyn benodol yn hwyrach na'r dyddiad cau a bennwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, bydd y swm sy'n daladwy fel arall yn cael ei ostwng o un y cant am bob diwrnod gwaith o'r dyddiad cau hyd y dyddiad y daeth y cais i law'r Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Os cyflwynwyd y cais fwy na 25 o ddiwrnodau (p'un ai diwrnodau gwaith ai peidio) yn hwyrach na'r dyddiad cau, ni wneir unrhyw daliad i'r ceisydd yn unol â'r cais hwnnw am daliad Tir Cynnal.

(3) Ni fydd paragraffau (1) a (2) uchod yn gymwys os ac i'r graddau bod cais wedi'i gyflwyno'n hwyrach na'r dyddiad cau perthnasol oherwydd force majeure.

Hysbysiad o newid ym meddiannaeth y tir

10.—(1) Bydd deiliad cytundeb Tir Cynnal (neu, os yw'r deiliad cytundeb Tir Cynnal wedi marw, ei gynrychiolydd personol) yn hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig o unrhyw newid ym meddiannaeth y tir cytundeb neu unrhyw ran o'r tir cytundeb os yw'r newid yn digwydd tra bo'r cytundeb Tir Cynnal mewn grym.

(2) Rhoddir hysbysiad o dan y rheoliad hwn o fewn tri mis ar ôl y newid ym meddiannaeth y tir o dan sylw.

(3) Pan fydd newid wedi bod ym meddiannaeth y cyfan neu ran o unrhyw dir cytundeb, a bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ymrwymo i gytundeb Tir Cynnal am weddill tymor y cytundeb gwreiddiol gyda'r meddiannydd newydd mewn perthynas â'r tir y bu newid yn ei feddiannaeth, yna bernir bod y cytundeb hwnnw, at ddibenion cyfrifo blynyddoedd cytundeb, wedi cychwyn ar y dyddiad y cychwynnodd y cytundeb gwreiddiol.

(4) Os yw'r meddiannydd newydd yn dewis peidio ag ymrwymo i gytundeb Tir Cynnal am weddill tymor y cytundeb gwreiddiol mewn perthynas â'r tir y bu newid yn ei feddiannaeth yna gall y Cynulliad Cenedlaethol atal y cyfan neu unrhyw ran o gymhorthdalaiadau sydd yn daladawy i'r deiliad cytundeb Tir Cynnal o dan y Rheoliadau hyn, a gall adennill y cyfan neu unrhyw ran o gymhorthdal a dalwyd iddo ef neu hi.

(5) Bydd darpariaethau uchod y rheoliad hwn yn ddarostyngedig i Erthygl 36 o Reoliad y Comisiwn Rhif 817/2004 (sy'n rheoli trosglwyddiadau daliadau).

Symiau o gymhorthdal

11. Bydd cymorthdaliadau a delir mewn perthynas â'r amodau adran fferm gyfan a'r gweithgareddau y cyfeirir atynt yn yr Atodlen ar yr adeg y daw'r offeryn hwn i rym fel y'u hamlinellwyd yn Rhan 4 o'r Atodlen—

Rhwymedigaeth i ganiatáu mynd ar y tir ac arolygu

12.—(1) Bydd deiliad Cytundeb Tir Cynnal sy'n gwneud cais am gymhorthdal o dan y Rheoliadau hyn yn caniatáu i unrhyw berson, a awdurdodwyd yn briodol gan y Cynulliad Cenedlaethol, ar bob adeg resymol, ac o gyflwyno tystiolaeth o'i awdurdod pan ofynnir amdani, fynd ar y tir y mae cytundeb Tir Cynnal yn berthnasol iddo at ddibenion —

(a) cyflawni unrhyw arolygiad o'r tir hwnnw neu o unrhyw ddogfen neu gofnod sydd ym meddiant neu o dan reolaeth y ceisydd ac sy'n ymwneud â'r cais neu y byddo'n rhesymol i berson a awdurdodir amau ei bod neu ei fod yn ymwneud â'r cais, gyda'r bwriad o wirio cywirdeb unrhyw fanylion a roddir yn y cais;

(b) sicrhau p'un a gydymffurfiwyd â thelerau cytundeb Tir Cynnal; ac

(c) cyflawni unrhyw arolygiad neu archwiliad sy'n angenrheidiol at ddibenion penderfynu a gydymffurfiwyd â'r Cod Ymarfer Ffermio Da.

(2) Bydd deiliad cytundeb Tir Cynnal yn rhoi pob cymorth rhesymol i'r person a awdurdodwyd mewn perthynas â'r materion a grybwyllir ym mharagraff (1), a bydd yn benodol yn—

(a) cynhyrchu unrhyw ddogfen neu gofnod y byddo person a awdurdodwyd yn gofyn amdani neu amdano;

(b) caniatáu i'r person a awdurdodwyd wneud copïau o unrhyw ddogfen neu gofnod o'r fath neu o ddarnau ohoni neu ohono;

(c) os cedwir y ddogfen neu'r cofnod drwy gyfrwng cyfrifiadur, ei chynhyrchu neu ei gynhyrchu ar ffurf y byddo'n hawdd ei darllen a'i dwyn ymaith; ac

(ch) ar gais y person a awdurdodwyd, mynd gyda'r person a awdurdodwyd pan fydd yn gwneud arolygiad o unrhyw dir er mwyn dangos pa ran o dir sy'n ymwneud â'r cais neu ag unrhyw newid yn ei feddiannaeth a hysbyswyd o dan reoliad 10.

Atal cymhorthdal a'i adennill

13.—(1) Os bydd unrhyw ddeiliad cytundeb Tir Cynnal, gyda'r bwriad o gael cymhorthdal o dan y Rheoliadau hyn ar ei gyfer ef ei hun neu ar gyfer unrhyw berson arall, yn gwneud unrhyw ddatganiad neu'n rhoi unrhyw wybodaeth sy'n ffug neu'n gamarweiniol, caiff y Cynulliad Cenedlaethol atal y cyfan neu ran o unrhyw gymorthdaliadau sy'n daladwy i'r person hwnnw neu i unrhyw berson arall